Ymwelydd pwysig

Dydd Llun, Medi 15, cafodd y babanod fore cyffrous iawn. Ymwelodd Mabli â'r ysgol a daeth â balwns a sticeri i bawb. Pwrpas ymweliad Mabli oedd i sôn am Sbri-di-ri (Clwb llyfrau ar gyfer y plant bach). Cafodd y plant gyfle i weld y llyfrau deniadol ac i gael tynnu eu llun gyda Mabli cyn iddi adael ar ei thaith i ysgol arall.

Chwaraeon

Mae'r tymor pêl-droed a hoci eisioes wedi dechrau ac mae timau'r ysgol wedi bod yn brysur yn ymarfer eu sgiliau.

Dydd Sadwrn, Medi 20 bu'r timau pêl-droed yn cystadlu yng nghystadleuaeth Tarian y Waun. Chwaraeodd pawb yn dda iawn ac fe lwyddodd tîm y Penrhyn i gyrraedd y rownd gyn-derfynol. Daliwch ati fechgyn.

Dydd Sadwrn Medi 27, roedd y bechgyn a'r merched yn cystadlu. Chwaraeodd y timau pêl-droed yng nghystadleuaeth cwpan RAFA. Aeth Bois y Fro a thîm y Penrhyn i'r rownd go-gyn derfynol, llongyfarchiadau iddynt.

Chwaraeodd y ddau dîm hoci mewn twrnament ar yr "Astro turf". Dwy gêm gyfartal gafodd Penrhyn A ac fe lwyddodd Merched Bro Dafydd i ennill dwy gêm. Da iawn ferched.